

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn Chwefror 5ed 2013

**Presennol:** Huw P Roberts (Cadeirydd), Huw Antur (Is gadeirydd), Ian Trow, Dewi Jones, Arwel LL Jones, Catrin Roberts, Beryl Hughes Griffiths, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones

Cynghorydd Alan Evans, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb ac yn arbennig i Lona Davenport (Swyddog Cefnogi Cymuned).

1137 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alwyn Roberts.

1138 Derbyn datganiadau buddiant gan Beryl Hughes Griffiths a Bethan Edwards (ym mater mynwent y Llan) a Huw P Roberts a Huw Antur (ym mater Apêl yr Urdd).

1139 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda , ond cafwyd cyflwyniad gan Lona Davenport ar faterion cyfraith a threfn yn yr ardal. Anogodd pawb i roi gwybod i'r heddlu am unrhyw fater sy'n eu pryderu trwy ffonio 101 a bydd y swyddog yn ffonio nôl. Dywedodd hefyd y byddai'r Swyddogion Cefnogi Cymunedol yn bresennol yng ngorsaf yr heddlu yn Y Bala rhwng 2.00pm a 4.00pm i dderbyn ymweliadau ar 13/2; 27/2; 13/3; 27/3; 10/4;; 24/4; 8/5 a 22/5/2013. Cafwyd trafodaeth ar y cyrch cyffuriau a fu yn yr ardal, ar ddwyn eiddo amaethyddol, ac ar bobl yn dod at y drws a thwylo trwy ddweud eu bod yn gwerthu manion at elusen ac yn y blaen. Canmolwyd y Swyddogion Cymunedol am eu presenoldeb rheolaidd yn cerdded ar hyd y pentref. Rhoddwyd gwybodaeth bellach am achosion o grafu ceir yn y pentref. Dywedodd y Cynghorydd Alan Evans fod gostyngiad wedi bod yn y nifer troseddau ym Mhenllyn yn ddiweddar a diolchodd i'w gyd-gynghorwyr a'r Aelod Seneddol am eu hymdrech i gynyddu presenoldeb yr heddlu yn yr ardal. Diolchodd y Cadeirydd yn gynnes iawn i Lona Davenport am ei hymweliad.

1140 Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod Ionawr 8fed, 2013.

1141 **Materion yn codi :**

- i. Trwsio'r wal wrth y toiledau cyhoeddus – derbyniwyd llythyr gan Cyngor Gwynedd yn mynegi mai cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned yw trwsio'r wal. Cafwyd cyfarfod gyda Dŵr Cymru am y difrod a wneir gan ei lorïau.
- ii. Perchnogaeth y toiledau cyhoeddus – cafwyd trafodaeth a chytunwyd i is-bwyllgor ddod ag argymhellion gerbron y cyfarfod nesaf. Aelodau'r is-bwyllgor: Huw Antur, Dewi Jones, Karl Jones, Alan Evans, Bethan Edwards a Lis Puw
- iii. Cwt yr hers – cytunwyd i ohebu ymhellach.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

---

### 1142 Gohebiaeth:

#### Gwynedd:

- 1) Derbyniwyd polisi Cynnal a Chadw Llwybrau Cyhoeddus. Mae pryder yn parhau am y dŵr ar Lwybr y Ceunant. Cafwyd cwynion am gerddwyr, yn arbennig y rhai dan gynllun Dug Caeredin, yn gadael gatiâu ar agor; awgrymwyd y dylid cyfeirio unrhyw broblem gyda'r cerddwyr hyn i sylw Dewi Evans, Y Bala.
- 2) Derbyniwyd gwybodaeth am y Gronfa Buddsoddi Cymunedol sydd eisoes wedi bod o gymorth i sawl mudiad yn y cylch.
- 3) Derbyniwyd Rhaglen waith y mis. Bydd y gwaith o ledu'r palmant o'r fynwent i gyfeiriad y pentref yn cael ei wneud y mis hwn.
- 4) Derbyniwyd holiadur am gyfleoedd chwarae; mae'r Cyng Alan Evans yn ateb ar ran y Cyngor.

#### Parc Cenedlaethol Eryri

- 1) Ystyriwyd ail gyflwyniad cais NP5/71/L297B i droi beudy yn estyniad yn 2 Coed y Lôn Cottage; nid oedd gwrthwynebiad.

#### Arall:

- i) Ystyriwyd cais Cylch y Llan i fod yn berchen ar fynwent a muriau'r Eglwys pe byddai eu cais am grant yn llwyddiannus. Cytunwyd mewn egwyddor.
- ii) Nodwyd llythyr gan Munud 'ma Cyf yn cynnig eu gwasanaeth.
- iii) Nodwyd llythyr Scottish Renewables parthed Coedwig Dyfnant.
- iv) Derbyniwyd gwybodaith am daith gerdded Sefydliad Aren Cymru ar 24/3/13

### 1143 Materion eraill:

- 1) Rhannwyd tocynnau i'w gwerth ar gyfer Noson Goffi'r Cyngor a gynhelir ar 13/3/13 am 7.00pm yng nghwmni Aeron Jones, a fydd yn rhoi hanes Y Seren a'r Cyfnod. Bydd yr elw yn mynd at Ambiwlans Awyr ac Ymchwil y Galon. Cytunodd Catrin Roberts a Bethan Edwards i fod yn gyfrifol am y drws. Diolchwyd i Adran yr Urdd am symud eu cyfarfod hwy.
- 2) Rhannwyd y cylchgrawn Parth Menter Eryri.
- 3) Nodwyd llythyr Llywodraeth Cymru a llythyr Un Llais Cymru parthed arian ar gyfer creu gwefan i'r gymuned.
- 4) Derbyniwyd cais am lawr concriid o dan y biniau ar stryd Erw'r Fron; mae'r Cynghorydd Sir eisoes wedi gwneud ymholiadau i sicrhau hyn.
- 5) Derbyniwyd sylw gan aelod o'r cyhoedd yn pryderu gallai dŵr orlifo i dai cyfagos oherwydd maes parcio newydd yr ysgol. Mynegwyd mewn ymateb y glanhawyd y cwlffert wrth y tai rai blynyddoedd yn ôl ac ni chafwyd gorlif ers hynny. Mae'r mesurau rhag gorlif ym maes parcio'r ysgol yn rhai soffistigedig a modern iawn, ac wedi eu cynllunio i ddŵr gael ei dderbyn mewn i'r tir yn hytrach na llifo ar hyd yr wyneb.

### 1144 Materion ariannol:

- 1) Derbyniwyd adroddiad yr Is bwyllgor Cyllid 14/1/13 a'r gyllideb am 2012-13, gyda'r praesept wedi ei gadw ar yr un lefel a llynedd.
- 2) Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- 3) Derbyniwyd gwybodaeth am y Swm priodol, sef £6.98.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

---

4) Penderfynwyd ystyried Apêl Eisteddfod yr Urdd gyda'r ceisiadau ariannol eraill yng nghyfarfod mis nesaf.

**1145 Partneriaeth Penllyn** - derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr am weithgaredd diweddar, sef

- 1) Trafodaethau gyda Pharc Cenedlaethol Eryri am drosglwyddo cyfrifoldeb dros rhai asedau.
- 2) Cyfarfod gyda Chymdeithas Tai Clwyd yng nglyn a'r Ganolfan Wasanaethau yn Y Bala.
- 3) Cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd a oedd yn ffafriol i gefnogi arbrawf o greu Canolfan Gwasanaethau yn Y Bala; hefyd trafodwyd trosglwyddo mwy o gyfrifoldeb dros wasanaethau i Bartneriaeth Penllyn.
- 4) Cytunwyd i'r Cadeirydd arwyddo ymestyn y Cytundeb rhwng Partneriaeth Penllyn a Gwynedd am flwyddyn arall.
- 5) Mae Partneriaeth Penllyn wedi ffurfio Cwmni Cyfyngedig o'r enw "Pum Plwy Penllyn" er mwyn cael personoliaeth gyfreithiol.
- 6) Mynychodd Huw Antur a Lis Puw gyfarfod yn Nolgellau i gyflwyno gwaith Partneriaeth Penllyn i aelodau Un Llais Cymru yn rhanbarth Dwyfor Meirionnydd.

Amser gorffen: 9.45pm